
Datganiad yn dod â'r Parth dan Gyfyngiadau â'i ganolbwynt yng nghyfeirnod grid SJ4861128063 i ben.

Cadarnhaodd Prif Swyddog Milfeddygol Cymru fod y fflw adar pathogenig iawn o'r is-deip H5 yn bresennol mewn dofednod neu garcasau dofednod yng Nghymru, ac mai N1 oedd teip y feirws niwrominidas, yn unol ag erthygl 8(1) o Orchymyn Fflw Adar (H5N1 mewn dofednod) Cymru) 2006¹ ("y Gorchymyn Dofednod").

Yn unol â'r pwerau yn erthygl 8(2) o'r Gorchymyn Dofednod ac erthyglau 28(5), 29(3) a 34(1) o [Orchymyn Fflw Adar a Fflw sy'n Deillio o Adar mewn Mamaliaid \(Cymru\) \(Rhif 2\) 2006 \("y Gorchymyn Fflw Adar"\)](#)², cyhoeddodd Gweinidogion Cymru Barth dan Gyfyngiadau â'i ganolbwynt yng nghyfeirnod grid **SJ4861128063**. Daeth y datganiad i rym am 20:45 ar 15 Rhagfyr 2021.

Yn unol ag erthygl 4(1)(b) y Gorchymyn Fflw Adar, mae Gweinidogion Cymru drwy hyn yn datgan bod y Datganiad y cyfeirir ato yn y paragraff blaenorol wedi'i ddirymu, gan drwy hynny ddod â'r Parth dan Gyfyngiadau y cyfeirir ato hefyd yn y paragraff hwnnw i ben.

Daw'r Datganiad hwn i rym ar 09:00, 9 Chwefror 2022.

Llofnodwyd: Gavin Watkins, Dirprwy Brif Swyddog Milfeddygol Cymru

Dyddiedig: am 07:48 ar 9 Chwefror 2022

O dan awdurdod y Gweinidog Materion Gwledig a'r Gogledd, a'r Trefnydd

¹ Rh.S. 2006/3309 (Cy. 299).

² S.I. 2006/2927 (W. 262).